Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# ASTUDIAETH ACHOS

## Cefnogi Rhieni mewn Gofal ac wrth adael Gofal; #NegeseuonIRieniCorfforaethol

Mae ymchwilwyr CASCADE, Lleisiau o Ofal Cymru, NYAS Cymru a TGP Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i ddatblygu cyfres o adnoddau, gan gynnwys Siarter Arfer Da, i helpu Rhieni Corfforaethol i gryfhau eu cefnogaeth i rieni sydd â phrofiad o ofal.

Mae'r gwaith hwn yn enghraifft wych o sut mae egwyddorion grymuso, cyfranogiad ac atebolrwydd wedi cael eu cymhwyso i wella sut mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus cysylltiedig (fel Iechyd) yn cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ar eu taith at fod yn rhieni a thrwy'r profiad hwnnw.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith ar gael yma;

https://www.exchangewales.org/supporting-parents-in-and-leaving-care-messagestocorporateparents/

### Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu:

Mae creu'r Siarter wedi dilyn ymlaen o waith helaeth Dr Louise Roberts, y nododd ei hymchwil y stigma, y gwahaniaethu yn eu herbyn, y canlyniadau gwael a'r anghyfartaledd a brofwyd gan bobl ifanc oedd â phrofiad o ofal wrth ddod yn rhieni.

Ariannwyd y prosiect Cymru gyfan gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac roedd yn cynnwys:

- cyfweliadau gyda rhieni oedd â phrofiad o ofal
- cyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol trydydd sector a statudol
- data arolygon gan awdurdodau lleol
- dadansoddiad eilaidd o'r setiau data cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli

Mae'r ffilm hon yn grynodeb byr o ganfyddiadau'r ymchwil gyda rhieni â phrofiad o ofal ac yn amlygu'r angen am wella cefnogaeth rhianta corfforaethol.

https://www.youtube.com/watch?v=DzrpMtVca14&feature=emb_imp_woyt

Trwy'r gwaith hwn, mae camwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn derbyn sylw gweithredol.

### Grymuso a chyfranogiad

Cynhyrchwyd y Siarter Arfer Da ar y cyd â rhieni oedd â phrofiad o ofal, mewn partneriaeth â Lleisiau o Ofal Cymru, NYAS Cymru a TGP Cymru. Gan weithio gyda'r rhai a fu'n rhan o astudiaeth Dr Roberts, a'r rhai oedd yn ymwneud â phrosiectau gyda'r sefydliadau uchod, aeth y grŵp ati i ddatblygu'r Siarter yn fodd i gryfhau a gwella sut mae rhieni corfforaethol yn cefnogi rhieni sydd mewn gofal ac yn gadael gofal.

Roedd yn bwysig canfod gan rieni beth oedd wedi gweithio iddyn nhw pan gawson nhw gefnogaeth, a pha gefnogaeth roedden nhw'n dymuno fuasai ar gael. Aeth y rhieni ati i wneud hyn trwy feddwl am eu taith fel rhieni, a myfyrio ar eu hanghenion ymlaen llaw ac wrth ddod yn rhieni. Bu hyn o gymorth i ddatblygu adrannau'r Siarter a chyflwyno'r ymrwymiadau roedden nhw am eu gweld gan weithwyr proffesiynol a gwasanaethau. Cafodd yr iaith ei mireinio i fod yn hygyrch a chlir i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

Ar hyd y broses, roedd rhieni'n cydnabod bod gan bobl ifanc anghenion ac amgylchiadau gwahanol. O ganlyniad, roedden nhw am greu Siarter sy'n hyblyg ac yn gynhwysol, i adlewyrchu ystod o anghenion a sefyllfaoedd, o'r rhai lle mae angen ychydig o gefnogaeth ar rieni, i'r rhai y gallai fod arnyn nhw angen i wasanaethau chwarae rhan lawer yn fwy.

Ers datblygu'r Siarter, mae gwaith wedi parhau i wella polisi ac ymarfer. Yn fwyaf diweddar, mae rhieni wedi gweithio gyda CASCADE ac artist lleol i ddatblygu cyfres o ddelweddau effeithiol, cofiadwy sy'n amlygu negeseuon allweddol o'r Siarter.

Mae negeseuon cryf yn y Siarter ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda rhieni i gynnal eu hawliau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dylai oedolion weithio er lles pennaf plant (Erthygl 3)
- Mae gan blant hawl i fyw gyda'u rhieni os dyna sydd orau iddyn nhw (Erthygl 9)
- Mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddweud eu barn a chael gwrandawiad (Erthygl 12)
- Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gyrchu gwybodaeth mewn ffordd gallan nhw ei deall (Erthygl 17)

## Atebolrwydd

Mae'r Siarter yn galw am ymrwymiad gan y llofnodwyr i barhau i weithio gyda rhieni ac elusennau i adolygu cynnydd a chynnal ymdrechion i sicrhau bod rhieni sydd mewn gofal ac yn gadael gofal yn cael eu cefnogi a'u trin yn deg. Yn yr un modd mae'r Siarter yn egluro y dylid herio rhieni corfforaethol pan fyddan nhw'n methu cyflawni eu rhwymedigaethau.

***Mae CASCADE yn bwriadu gwneud gwaith ymchwil pellach i edrych ar weithrediad ac effaith y siarter. Bydd rhieni sydd â phrofiad o ofal yn ganolog i'r gwaith hwn.***

## Effaith: y Siarter yn ymledu ar draws Cymru – a'r byd!

Mae'r Siarter wedi cael derbyniad da yng Nghymru. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi'i chymeradwyo trwy eu byrddau rhianta corfforaethol, neu maen nhw wrthi'n gwneud hynny. Mae'r adborth gan weithwyr proffesiynol yn awgrymu bod y Siarter yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer sicrhau cysondeb ac ymarfer cadarnhaol wrth gefnogi rhieni sydd mewn gofal ac yn gadael gofal.

Mae'r Siarter hefyd wedi bod yn destun diddordeb o'r tu allan i Gymru ac mae nifer o lywodraethau lleol, cyrff trydydd sector a phrifysgolion yn gweithio ar addasu'r Siarter i'w

cyd-destunau lleol neu genedlaethol. Mae CASCADE yn gweithio ar hyn o bryd gyda rhieni, academyddion, a chyrff statudol a thrydydd sector yn Awstralia, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, yr Eidal a'r Alban. Mae'r Siarter wedi'i chyfeithu i Eidaleg.

**Pa wahaniaeth mae wedi gwneud? Achos enghreifftiol o Fro Morgannwg**

Bro Morgannwg oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ymrwymo i'r Siarter Arfer Da.

Cafwyd diddordeb yn y Siarter ar unwaith gan weithwyr proffesiynol ym Mro Morgannwg, gan ei bod yn cydweddu ag ymrwymiad mwy cyffredinol i ddulliau seiliedig ar gryfderau oedd yn hybu hawliau ar draws yr awdurdod.

Cafodd y Siarter ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Panel Rhianta Corfforaethol ym mis Ionawr 2022. Wedi hynny lledaenwyd y Siarter trwy gyfarfodydd uwch-reolwyr a'i rhaeadru i lawr i'r timau unigol. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio ymlaen at yr adnoddau ategol.

Teimlir bod y Siarter yn fframwaith defnyddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi rhieni ifanc â phrofiad o ofal. Mae'r gwaith wedi bod o gymorth yn arbennig i'r tîm 14+, yn fodd i eiriol o blaid pobl ifanc a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried mewn modd cyfannol.

Yn unol ag ymrwymiadau'r Siarter:

- Ni dderbynnir atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant ym Mro Morgannwg ar sail statws gofal na hanes. Rhoddir pwyslais ar anghenion cefnogi ac amgylchiadau unigol y person ifanc.
- Mae'r ddarpariaeth leol mam a baban wedi cynyddu o fewn yr awdurdod lleol. Mae hynny wedi cryfhau'r opsiynau tai i bobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'r opsiynau cefnogaeth lleol yn osgoi sefyllfaoedd blaenorol lle roedd pobl ifanc yn gorfod symud allan o'r sir ac i ffwrdd oddi wrth eu perthnasoedd a'u cefnogaeth allweddol.
- Mae gofalwyr maeth ym Mro Morgannwg yn darparu cefnogaeth yn y gymuned i rieni sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau anffurfiol â phobl ifanc, a chynnig cymorth a chyngor os bydd angen. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnal perthnasoedd ac yn ceisio efelychu'r mathau o gefnogaeth a ddisgwylid fel arfer gan deuluoedd biolegol.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol gyfredol ym Mro Morgannwg yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae hynny'n cynnwys cyfathrebu rheolaidd, ystyrlon â phlant a phobl ifanc yn yr ardal leol, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o ofal, a gofyn eu cyngor ar gyflwyno a gwella gwasanaethau. Mae uwch-reolwyr, gan gynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Plant, ar flaen y gwaith ymgysylltu hwn. O ganlyniad, mae hyder y bydd ymrwymiadau'r Siarter yn cael eu hadolygu fel mater o drefn.